# ARCHWILIO EIN TIRWEDD DDYNODEDIG LEOL – PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn ystyried sut olwg allai fod ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o'r awyr, cyn gwylio fideo drôn o'r ardal. Maent yn creu troslais ar gyfer y fideo drôn, gan ddatblygu meini prawf llwyddiant fel rhan o'r broses, gan ddefnyddio asesu cymheiriaid i asesu troslais y naill a'r llall. Mae dysgwyr yn archwilio map o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan leoli agweddau a nodweddion y dirwedd y maent wedi'i harsylwi ar y fideo drôn. Maent yn creu llwybr ar gyfer cyfranogwyr o'u dewis, sy'n amlygu rhinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae dysgwyr yn cael adborth gan gymheiriaid am eu llwybr arfaethedig ac yn canlyn y cyfranogwyr wrth iddynt ddilyn y llwybr. Yn olaf, mae dysgwyr yn creu arddangosfa yn yr ysgol i amlygu eu llwybr a myfyrio ar y broses ddatblygu yn ei chyfanrwydd.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Mynediad at: Find out what every symbol means on an OS Explorer map - OS GetOutside (Saesneg yn unig).
Cwmpawd.
Offer mesur, e.e. pedomedr, tâp mesur hir ar gyfer chwaraeon.
Dulliau o gymryd ffotograffau (e.e. ffôn clyfar, tabled, camera).

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# SUT OLWG SYDD AR BARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG O'R AWYR?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw yn ystyried sut olwg allai fod ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o'r awyr, cyn gwylio fideo drôn o'r ardal, yn y dasg hon. Yna, byddant yn creu troslais ar gyfer y fideo drôn, gan ddatblygu meini prawf llwyddiant fel rhan o'r broses ac yn defnyddio asesu cymheiriaid ar gyfer asesu troslais y naill a'r llall.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw dynnu llun o'r awyr o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar ôl trafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa nodweddion sydd yn y dirwedd? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut allech chi ddangos y nodweddion hyn o'r awyr?

Gwahoddwch y dysgwyr i dynnu llun o'r hyn maen nhw'n meddwl y bydden nhw'n ei weld.

## Sgrîn 4

Dangoswch y fideo drôn o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r dysgwyr (tua 2 funud) a gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa nodweddion tirwedd allwch chi eu gweld?
- Ai dyma'r hyn roeddech chi'n disgwyl ei weld? Pam?
- Beth allwch chi ei weld sy'n eich synnu? Pam?

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i ddatblygu a chyflwyno troslais ar gyfer y fideo drôn. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sy'n gwneud troslais da? Sut ydych chi'n gwybod?

Gwahoddwch y dysgwyr i restru rhai meini prawf llwyddiant drwy eu teipio yn y blwch a ddarperir.

Eglurwch y bydd cynnwys y blwch hwn yn cael ei drosglwyddo i'r sgriniau nesaf, fel y gallant ychwanegu at eu meini prawf llwyddiant wrth i'r dasg fynd yn ei blaen.

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r fideo o Gymru ar gyfer twristiaid: Hidden Secrets of Wales Unveiled (tua 4 munud) a gwrando'n ofalus ar y troslais. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol ac ychwanegu at eu meini prawf llwyddiant, os oes angen.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw eich barn am y troslais ar y fideo? Pam?
- Beth yw'r pethau da amdano? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth yw'r pethau sydd ddim mor dda amdano? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa rinweddau arbennig am Gymru sy'n cael eu crybwyll?
- Sut fyddech chi'n gwella'r troslais? Pam y byddai'r pethau hyn yn ei wella?

## Sgrîn 7

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd angen i'w troslais amlygu rhinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae rhinweddau arbennig yn disgrifio'r hyn sy'n nodedig ac o bosibl yn unigryw ynghylch tirwedd ddynodedig benodol. Gwahoddwch nhw i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw prif nodweddion y dirwedd? Beth sy'n gwneud y nodweddion yn arbennig?
- Beth yw rhinweddau arbennig y dirwedd, yn eich barn chi? Rhestrwch eich syniadau.

## Sgrîn 8

Rhoddir rhestr i'r dysgwyr o rinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol ac ychwanegu at eu meini prawf llwyddiant, os oes angen.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae'r rhinweddau arbennig hyn yn cymharu â'ch rhestr chi?
- Beth sy'n wahanol? Beth sy'n debyg?
- Beth sy'n eich synnu? Pam?
- Pa rai o'r rhinweddau arbennig hyn ydych chi wedi cael profiad ohonynt eich hun? Sut? Pryd?

## Sgrîn 9

Gwahoddwch y dysgwyr i wylio'r fideo drôn eto (tua 2 funud). Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol ac ychwanegu at eu meini prawf llwyddiant, os oes angen.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rinweddau arbennig mae'r fideo drôn yn eu dangos?
- Sut byddwch chi'n defnyddio'r rhinweddau arbennig hyn i greu troslais?

Mae'r nodweddion arbennig ar gael ar naidlen.

## Sgrîn 10

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd eu troslais ar gyfer dysgwyr iau. Gwahoddwch nhw i wylio'r  fideo drôn eto, trafod y cwestiynau canlynol ac ychwanegu at eu meini prawf llwyddiant, os oes angen.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa dôn y llais fyddwch chi'n ei defnyddio? Pam?
- Pa mor gyflym fyddwch chi'n siarad? Pam?
- Pa wybodaeth arall fyddwch chi'n ei chynnwys? Pam?

## Sgrîn 11

Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol ac i ychwanegu at eu meini prawf llwyddiant os oes angen.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut byddwch chi'n datblygu sgript ar gyfer y troslais?
- Pa gyfarwyddiadau fydd eu hangen ochr yn ochr â'r sgript, ar gyfer y person sy'n gwneud y troslais? Pam?
- Sut byddwch chi'n sicrhau bod y troslais yn cyfateb i'r hyn y mae'r fideo yn ei ddangos? Pam ei wneud fel hyn?
- Pa eirfa fyddwch chi'n ei defnyddio er mwyn sicrhau bod pobl yn edrych ar rinweddau arbennig penodol? Pam y bydd hyn yn helpu?

## Sgrîn 12

Gwahoddwch y dysgwyr i flaenoriaethu eu meini prawf llwyddiant ac i ddethol a rhestru'r pump sydd bwysicaf, yn eu barn nhw.

## Sgriniau 13-14

Gofynnwch i'r dysgwyr greu eu troslais a rhannu'r fideo drôn sy'n cynnwys eu troslais, gyda'r dosbarth. Cyn i'r dysgwyr wneud hyn, gwahoddwch nhw i rannu eu pum maen prawf llwyddiant pwysicaf, gan egluro:

- y rhesymau dros gynnwys ac arddull y troslais
- pam y credant fod y troslais yn briodol ar gyfer dysgwyr iau.

Gwahoddwch y dosbarth i fyfyrio ar fideo drôn o'r grŵp hwn ac i roi adborth ar ffurf dwy seren a dymuniad. Ailadroddwch y broses nes bod pob grŵp wedi cyflwyno eu troslais i'r dosbarth ac wedi derbyn adborth.

## Sgrîn 15

Yn olaf yn y dasg hon, gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrio ar yr adborth a gawsant gan y dosbarth a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut byddwch chi'n defnyddio'r adborth i wneud gwelliannau perthnasol?
- I ba raddau wnaethoch chi fodloni pob un o'ch meini prawf llwyddiant?
- Sut mae hunanwerthuso mewn perthynas â'ch meini prawf llwyddiant yn rhoi syniadau i chi ar gyfer gwelliannau pellach? Beth ydyn nhw? Sut y gallai'r syniadau wella eich troslais?

TASG 2

# ARCHWILIO MAP O BARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw yn archwilio map o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan leoli agweddau a nodweddion y dirwedd maen nhw wedi'u gweld ar y fideo drôn, yn y dasg hon.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar fap Arolwg Ordnans (OS) o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa nodweddion o'r dirwedd allwch chi eu gweld ar y map?
- Sut mae'r map yn cymharu â'r fideo drôn?
- Pa nodweddion sydd ar y map welsoch chi ar y fideo drôn?
- Pa nodweddion sydd ar y map na wnaethoch chi eu gweld ar y fideo drôn?
- Beth welsoch chi ar y fideo drôn nad ydynt ar y map? Pam ydych chi'n meddwl bod pethau i'w gweld ar y fideo drôn, ond nad ydynt ar y map?

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio darnau byr o'r fideo drôn a cheisio dod o hyd i'r hyn maen nhw'n ei weld ar y map OS.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor hawdd yw hi i ddod o hyd i ardaloedd a ddangosir ar y fideo, sydd hefyd ar y map OS? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa nodweddion tirwedd sy'n haws eu lleoli ar y map? Pa rai sy'n anodd eu lleoli ar y map? Pam?
- Pa mor sicr ydych chi eich bod wedi dod o hyd i'r ardaloedd neu'r nodweddion cywir ar y map? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

TASG 3

# CREU LLWYBR ER MWYN AMLYGU RHINWEDDAU ARBENNIG PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i greu llwybr rhifedd neu lythrennedd o amgylch rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, er mwyn amlygu ei rinweddau arbennig.

Bydd angen i chi benderfynu i ba ardal o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog y byddwch yn mynd â nhw. Bydd hyn yn amlwg yn dibynnu ar leoliad yr ysgol, y cludiant sydd ar gael a chostau, ac ati. Os yn bosibl, efallai y byddwch am ddefnyddio ardal sydd wedi'i chynnwys yn y fideo drôn, oherwydd gallai hyn fod yn ddefnyddiol pan fydd dysgwyr yn datblygu eu llwybrau.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddwch chi'n mynd â nhw i'r ardal o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, lle bydd eu llwybr wedi'i leoli. Gofynnwch iddynt wirio'r fideo drôn er mwyn gweld a yw'r ardal ar y fideo. Os ydyw, efallai y byddant am ddefnyddio cynnwys y fideo drôn i'w helpu i ddatblygu eu llwybr.

## Sgrîn 4

Cyn mynd â'r dysgwyr i leoliad eu llwybr, gofynnwch i'r dysgwyr ddod o hyd i'r ardal ar y map Arolwg Ordnans a thrafod y cwestiynau canlynol, gan gofnodi syniadau ar fap meddwl.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa nodweddion diddorol ydych chi'n disgwyl eu gweld ar eich ymweliad? Pam?
- Pa rinweddau arbennig o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ydych chi'n disgwyl eu gweld? Pam?

Mae'r nodweddion arbennig ar gael ar naidlen.

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth barau o ddysgwyr eich bod am iddynt weithio gyda phâr arall er mwyn penderfynu a fydd eu grŵp yn cynhyrchu llwybr rhifedd neu lythrennedd. Efallai y byddan nhw'n cyfeirio at eu mapiau meddwl i'w helpu i benderfynu.

Anogwch y dysgwyr i ystyried y syniadau ar gyfer llwybrau llythrennedd a rhifedd a ddarperir ar y sgrîn ac i benderfynu ar y math o lwybr y byddant yn ei ddatblygu a phwy fydd yn dilyn y llwybr.

## Sgrîn 6

Cyn i chi fynd â'r dysgwyr allan i ardal y llwybr a ddewiswyd, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol yn eu grŵp.

**Cwestiynau ffocws**

- Ar gyfer pwy fydd eich llwybr yn cael ei greu? Pam?
- Pa wybodaeth neu ddata sydd angen i ni eu casglu? Pam?
- Sut ydym ni'n mynd i gasglu'r wybodaeth hon neu'r data hwn?
- Pa offer fydd angen i ni eu cymryd gyda ni, er mwyn datblygu ein llwybr?
- Beth fydd hyd ein llwybr ni? Pam?
- Sut dirwedd sydd ar ein llwybr?
- Pa mor hygyrch fydd ein llwybr? Pam?

## Sgrîn 7

Ewch â'r dysgwyr allan i ardal y llwybr a ddewiswyd a'u gwahodd i sylwi'n ofalus ar yr ardal hon o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog er mwyn penderfynu yn union ble bydd eu llwybr yn cael ei leoli.

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r map OS o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog er mwyn amlygu'r canlynol:

- man cychwyn a man diweddu eu llwybr
- y llwybr ei hun.

## Sgrîn 9

Wrth i'r dysgwyr ddatblygu elfennau eu llwybr, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol fel rhan o'r broses ddatblygu.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa wybodaeth fydd angen i chi ei darparu er mwyn i eraill allu dilyn eich llwybr?
- Sut bydd y rhai sy'n dilyn eich llwybr yn cyflawni'r tasgau rydych chi wedi'u gosod? A fydd angen iddynt stopio ar adegau gwahanol? Pam gwneud hynny neu pam ddim gwneud hynny?
- A fydd angen i'r rhai sy'n dilyn eich llwybr gwblhau tasgau ysgrifenedig neu dasgau wedi'u teipio? Beth ydyn nhw?
- Sut bydd y rhai sy'n dilyn eich llwybr yn cofnodi eu meddyliau a'u syniadau? A fydd angen i chi ddarparu taflenni gwaith neu ddolenni ar-lein? Os felly, beth ydyn nhw? Sut byddwch chi'n gwneud hyn?

## Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr gwblhau'r holl elfennau sydd eu hangen ar gyfer eu llwybr a'i rannu â grŵp arall. Dylid gofyn i'r grŵp sy'n myfyrio ar eu llwybr, i ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor hawdd yw dilyn y llwybr?
- Beth arall y gellid ei ychwanegu at y llwybr er mwyn ei wneud yn haws i'w ddilyn?
- Pa mor ddiddorol yw'r llwybr?
- Beth arall y gellid ei ychwanegu at y llwybr i'w wneud yn fwy diddorol?
- Pa mor addas yw'r llwybr ar gyfer y rhai a ddewiswyd gennych i ddilyn y llwybr?
- Sut y gellid gwneud y llwybr yn fwy addas?

Gwahoddwch bob grŵp i newid eu llwybrau yng ngoleuni'r adborth a gânt.

## Sgrîn 11

Mae'n hanfodol fel rhan o'r broses hon bod y cyfranogwyr y crëwyd y llwybr ar eu cyfer, yn cael cyfle i ddilyn y llwybr.

Gallai'r grŵp a greodd y llwybr fynd i ganlyn y grŵp o gyfranogwyr, wrth iddynt ddilyn y llwybr. Fel hyn, gallai'r rhai wnaeth greu'r llwybr weld pa mor hawdd yw dilyn y llwybr, mesur y lefelau o fwynhad ac unrhyw faterion sy'n codi, gofyn cwestiynau, cymryd ffotograffau, ac ati. Gallent ddefnyddio'r wybodaeth hon i greu arddangosfa, megis gweithgaredd dilynol ar ôl dychwelyd i'r ysgol.

## Sgrîn 12

Gwahoddwch y dysgwyr i fyfyrio ar y dasg gyfan trwy ddefnyddio o leiaf un o'r ymadroddion canlynol ar ddechrau brawddegau:

Deallais yn well pan...; Y peth oedd yn gymorth mawr i mi heddiw oedd...; Un peth a wnaethom heddiw a wnaeth i mi sylweddoli...; Er mwyn gwella, gallwn i...; Ar ôl darllen, dwi'n...; Gallwn i ddefnyddio'r strategaeth hon pan...; Ar ôl siarad â...; Y tro nesaf, gallwn i...; Y peth mwyaf anodd i mi oedd...; Un syniad/peth dwi'n dal ddim yn ei ddeall ydy...

Dylid rhannu'r ymadroddion gyda'r dosbarth.